| | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Y Pwyllgor Archwilio Perfformiad** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **Dydd Iau 21 Chwefror 2013** |
| **Aelod Arweiniol / Swyddog:** | **Y Cynghorydd Barbara Smith / Alan Smith** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Nicola Kneale** |
| **Teitl:** | **Adolygu'r Gofrestr Risg Corfforaethol, Chwefror 2012** |

---

## 1. Ynghylch beth mae'r adroddiad?

1.1 Adolygiad ffurfiol Chwefror 2013 o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol.

## 2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?

2.1 Cyflwyno'r fersiwn ddiweddaraf o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol i'r Pwyllgor Archwilio Perfformiad, fel y cytunwyd gan y Tîm Rheoli Corfforaethol.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Fod yr Aelodau'n nodi'r dileadau, yr ychwanegiadau a'r newidiadau i'r Gofrestr Risg Gorfforaethol.

3.2 Fod yr Aelodau'n cadarnhau fod y Gofrestr Risg Gorfforaethol ynghlwm yn cynnwys yr wybodaeth lawn o'r prif risgiau sy'n wynebu'r cyngor ar hyn o bryd a bod y gweithrediadau a nodwyd yn y Gofrestr Risg Gorfforaethol yn briodol i dalu sylw i'r risgiau a nodwyd.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1 Y prif newidiadau i'r Gofrestr Risg Gorfforaethol yw:

i) Newid DCC001,*'Y risg o gamgymeriad diogelu difrifol ble mae gan y cyngor gyfrifoldeb'.* Mae angen gwaith pellach, felly newidiwyd y terfyn amser i 31 Mawrth 2013.

ii) Dileu DCC002, *'Y risg y byddai adolygiad barnwrol ynghylch ffioedd cartrefi gofal yn dyfarnu yn erbyn y cyngor'.* Cytunwyd ar fethodoleg ranbarthol erbyn hyn. Bydd y risg yn dal i gael ei monitro ar lefel gwasanaeth, ond mae'r risg gynhenid wedi lleihau digon i'w hisraddio.

iii) Newid i CDD004, *'Y risg na fyddwn yn gallu datblygu gallu staff a rheolwyr i ddarparu'r agenda newid'.* Ystyriwyd fod y risgiau ynghylch Adnoddau Dynol yn ehangach na'r agenda newid yn unig. Felly mae'r risg wedi'i newid i *'Y risg nad yw'r fframwaith Adnoddau Dynol yn cefnogi nodau'r sefydliad'.*

iv) Dileu DCC005, *‘Y risg fod yr amser a’r ymdrech a dreuliwyd ar y prosiectau cydweithredu mawr presennol yn anghymesur â’r buddion a geir.* Oherwydd bod y prosiectau cydweithredu y cyfeirir atyn nhw bron iawn wedi’u cwblhau erbyn hyn, a bod y prosiectau’n cael eu rheoli’n gryfach, ni ystyrir fod hyn bellach yn risg.

v) Newid DCC006, *‘Y risg bod yr hinsawdd economaidd yn gwaethygu y tu hwnt i’r disgwyliadau presennol, gan arwain at ofyn ychwanegol am wasanaethau ac y bydd llai o incwm’.* Roedd y risg weddilliol yn wreiddiol yn C2 ond mae wedi’i hisraddio i D2 gan adlewyrchu’n rhagolygon ar gyfer y ddwy flynedd nesaf. Mae’r geiriad hefyd wedi’i newid i gyfeirio at yr hinsawdd ariannol, gan adlewyrchu’r ffaith y gallai cyllidebau partneriaid effeithio arnom ni.

vi) Newid DCC007, *‘Y risg fod gwybodaeth hanfodol neu gyfrinachol yn cael ei golli neu’i ddatgelu'.* Mae’r cyfrifoldeb am weithredu atebion EDRMS wedi’i drosglwyddo i Alan Smith, ac mae gweithred liniaru arall i godi ymwybyddiaeth o ddeddfwriaeth gwybodaeth i MMC wedi’i chynnwys.

vii) Dileu DCC009, *Y risg nad yw TGCh strategol yn gallu cefnogi gwella a newid’.* Y farn yw bod hyn wedi’i ateb drwy ddatblygu a darparu strategaeth sydd wedi’i chymeradwyo’n gorfforaethol. Mae risg cysylltiedig wedi’i datblygu (gweler DCC017).

viii) Dileu DCC010, *‘Y risg y bydd ein portffolio asedau’n dod yn faich anhydrin ac yn rhwystr i gynllunio strategol’.* Barn y Tî m Rheoli Corfforaethol yw fod llawer wedi’i wneud i ateb hyn, felly dylai’r risg fod yn llai. Dylai hefyd fod yn gallu cael ei reoli ar lefel gwasanaeth erbyn hyn.

*ix)* Newid DCC011, *'Y risg o ddigwyddiad o dywydd difrifol, gwaeth na’r patrwm tywydd tymhorol y gellir ei ddisgwyl’.* Cynigiwyd risg ynghylch digwyddiad annisgwyl o wenwyn bwyd. Barn y Tî m Rheoli Corfforaethol oedd bod yna thema gyffredin i’r ddau ddigwyddiad yma, sef y ffaith eu bod yn ddigwyddiadau argyfwng ac y byddai’r ymateb i’r ddau yn debyg trwy’r trefniadau cynllunio ar gyfer argyfwng. Felly, mae’r disgrifiad risg wedi newid i *‘Y risg o dywydd difrifol, halogiad neu ddigwyddiad iechyd y cyhoedd',* ac mae’r rhestr o enghreifftiau o broblemau wedi’i hymestyn.

x) Newid DCC013, *‘Y risg o ddyledion ariannol arwyddocaol o ganlyniad i fethiant sefydliad allanol'.* Y farn oedd bod y risg yma yn cynnwys mwy nag atebolrwydd ariannol yn unig - dylai hefyd gynnwys iechyd a diogelwch a chyfrifoldebau diogelu. Felly, mae wedi cael ei aralleirio fel *‘Y risg o beryglon arwyddocaol, ariannol ac o ran enw da, yn codi o reolaeth cwmni Hyd Braich'*

xi) Newid risg weddillion DCC016, ‘*Y risg y gallai effeithiau'r newidiadau lles fod yn fwy sylweddol nag a ragwelwyd’.* Yn wreiddiol, roedd hon

wedi'i dosbarthu'n risg B2, mae wedi'i hisraddio i B3 (mae'r effaith yn llai). Mae hyn oherwydd cyhoeddiad Llywodraeth Cymru'n ddiweddar y bydd yn rhoi cymhorthdal ar gyfer gostyngiadau mewn Budd-daliadau Treth y Cyngor a hefyd ar gyfer y newidiadau a allai godi wrth gyflwyno Credyd Cynhwysol.

xii) Ychwanegu at DCC017, '*Y risg na fydd y buddsoddiad mewn TGCh yn arwain at yr effeithiolrwydd a'r arbedion y mae'r flaenoriaeth Moderneiddio ei hangen'.* Mae'r disgrifiad hwn yn adlewyrchu'r ffaith nad yw TGCh ond yn galluogi gwelliannau – mae'n rhaid penderfynu'n effeithiol ynghylch buddsoddiadau er mwyn gwireddu buddion.

xiii) Ychwanegu at DCC018, '*Y risg nad yw prosiectau newid / moderneiddio yn cael eu gweithredu'n ôl y bwriad a bod hynny'n rhwystro gwireddu buddion'.* Mae'r risg hon yn adlewyrchu'r ffaith y gallwn ni osod y seilwaith ar gyfer newid ond oni bai bod ymddygiad a phrosesau hefyd yn newid na fyddwn ni'n gallu gwireddu'r buddion a ddisgwylir ac a oedd yn sail i'r buddsoddiad gwreiddiol.

4.2 Mae'r Gofrestr Risg Gorfforaethol yn galluogi'r Cyngor i reoli tebygolrwydd ac effeithiau'r risgiau drwy werthuso effeithiau unrhyw waith lliniaru a chofnodi terfynau amser a chyfrifoldebau ar gyfer gwaith pellach i allu rheoli'n dynnach.

4.3 Cafodd y Gofrestr Risg Gorfforaethol ei datblygu, ac mae ym mherchnogaeth y Tî m Rheoli Corfforaethol . Mae'r broses ar gyfer adolygu fel a ganlyn:

- Cafodd yr holl gofrestrau risg eu hadolygu gan y gwasanaethau (yn unol â'r fethodoleg rheoli risg gorfforaethol) cyn pob rownd o gyfarfodydd Her Perfformiad Gwasanaeth. Bydd unrhyw broblemau neu gwestiynau'n cael eu trafod yn y cyfarfodydd Her Perfformiad Gwasanaeth.

- Mae'r Tî m Gwella Corfforaethol yn dadansoddi cofrestrau risg y gwasanaethau i nodi unrhyw risgiau o arwyddocâd corfforaethol neu unrhyw themâu o risg yn datblygu ar draws y gwasanaethau.

- Mae diweddariadau ar y risgiau corfforaethol presennol yn cael eu casglu gan berchnogion y risgiau a diweddariadau ar waith lliniaru'n cael eu casglu gan berchnogion y gwaith hwnnw.

- Cynhelir cyfarfodydd unigol gyda'r Prif Weithredwr a phob un Cyfarwyddwr Corfforaethol i drafod y risgiau y maen nhw'n arwain arnyn nhw. Ystyrir a yw'r risg yn dal i fodoli, a yw'r sgoriau'n gywir ac a oes yna unrhyw risgiau newydd o dan eu hawdurdodaeth y dylid eu cynnwys.

- Cynhelir gweithdy risg gyda'r Tîm Rheoli Corfforaethol i adolygu'r risgiau presennol, i drafod cynnydd ar y mesurau lliniaru a gytunwyd, i drafod a chytuno ar risgiau corfforaethol newyddac adolygu a diweddaru sgoriau gweddilliol risgiau, i ddiweddaru'r mesurau rheoli (yng ngoleuni'r gwaith a wnaed) ac i gytuno ar unrhyw waith newydd sydd ei angen i liniaru risgiau.

4.3 Bydd y Gofrestr Risg Gorfforaethol yn cael ei hadolygu'n ffurfiol gan y Tî m Rheoli Corfforaethol yn dilyn pob rownd o Heriau Perfformiad Gwasanaeth (pan fydd pob cofrestr risg gwasanaeth yn cael ei hadolygu a'i thrafod). Fodd bynnag, tynnir sylw'r Tî m Rheoli Corfforaethol (trwy'r Tî m Gwella Corfforaethol) at unrhyw risgiau arwyddocaol newydd neu sy'n cynyddu wrth eu nodi. Yna, gall y Tîm Rheoli Corfforaethol benderfynu a ddylid cynnwys y risg ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol.

4.4 Yn dilyn pob adolygiad ffurfiol o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol (ddwywaith y flwyddyn), bydd y ddogfen ddiwygiedig yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio Perfformiad.

4.5 Bydd y gwaith a nodwyd i dalu sylw i risgiau corfforaethol yn cael ei gynnwys yn y Cynlluniau Gwasanaeth os yn briodol a bydd hynny'n galluogi Aelodau'r Pwyllgor Archwilio Perfformiad i fonitro cynnydd. Gellir hefyd amlygu unrhyw broblemau o ran perfformiad ynghylch y gwaith fel rhan o'r broses Her Perfformiad Gwasanaeth.

4.6 Mae gwaith Archwilio Mewnol y Cyngor yn rhoi sicrwydd annibynnol ar effeithiolrwydd y gweithdrefnau a'r peirianwaith rheolaeth fewnol i liniaru'r risgiau ar draws y cyngor. Mae hefyd yn cynnig her annibynnol i sicrhau fod egwyddorion a gofynion rheoli risg yn cael eu mabwysiadu'n gyson ledled y Cyngor. Mae Archwilio Mewnol hefyd yn defnyddio gwybodaeth o'n cofrestrau risg corfforaethol a gwasanaethau ar gyfer ei flaen raglen waith.

4.7 Bydd adolygiad ac adroddiad cynnydd a fydd yn cael ei baratoi bob blwyddyn ar gyfer y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ar gynnydd y polisi rheoli risg yn nodi meysydd lle mae gwendidau sydd angen eu cryfhau i wella'r broses o reoli risg.

## 5. Sut y bydd y penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Diben y Gofrestr Risg Gorfforaethol yw nodi digwyddiadau yn y dyfodol a allai niweidio gallu'r Cyngor i gyrraedd ei amcanion, gan gynnwys ei flaenoriaethau corfforaethol. Felly, mae'r rheolau a'r gweithrediadau a nodir yn hanfodol i wireddu'r blaenoriaethau corfforaethol.

## 6. Beth fydd y gost a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Bydd y gost o ddatblygu, monitro ac adolygu'r Gofrestr Risg Gorfforaethol yn cael ei gynnwys yn y cyllidebau presennol.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb a wnaed ar y penderfyniad? Dylid atodi'r templed Asesiad Effaith Cydraddoldeb wrth yr adroddiad

7.1 Mae'r Gofrestr Risg Gorfforaethol yn nodi'r risgiau a ganfuwyd a hefyd y gwaith lliniaru, ar hyn o bryd ac arfaethedig, Nid yw'r gwaith o ddatblygu ac adolygu'r ddogfen yn amharu ar bobl gyda nodweddion gwarchodedig. Fodd

bynnag, dylid asesu ar lefel darparu gwasanaeth unrhyw broses, strategaeth neu bolisi newydd yn codi o ganlyniad i waith lliniaru,

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gydag Archwilio ac eraill?

8.1 Mae'r manylion yr ymgynghori a wnaed i ddatblygu'r Gofrestr Risg Gorfforaethol ym mharagraff 4.3.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Does dim goblygiadau ariannol yn codi o'r broses a amlinellir yn yr adroddiad hwn ynghylch datblygu, monitro ac adolygu'r Gofrestr Risg Corfforaethol.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Y brif risg yn y broses rheoli risg yw nad yw'r cofrestrau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd ac felly nad ydynt yn dod yn declyn rheoli dynamig ac ystyrlon. Fodd bynnag, mae'r broses newydd wedi'i chyfuno'n llwyr yn fframwaith rheoli perfformiad y Cyngor a dylai hynny sicrhau nad yw hynny'n digwydd.

## Yr Hawl i Benderfynu

10.1 Deddf Llywodraeth Leol 2000